# **Cyfrifiad 2021:** Papur Pwnc Poblogaeth a Mudo


Awst 2024

**Awdur:** Tîm Ymchwil a Pherfformiad, Cyngor Sir Ceredigion
**Dyddiad:** Awst 2024
**E-bost:** performanceresearch@ceredigion.gov.uk

# Penawdau Allweddol


## Poblogaeth wedi gostwng 5.8%

**-4,500** trigolyn rhwng cyfrifiadau.




## Poblogaeth wedi bod yn cynyddu ers 2021

**+3.4%**
**+2,374** trigolyn
rhwng 2021 a 2023




Roedd y **gostyngiad yn y boblogaeth** rhwng 2011 a 2021 wedi'i gyrru gan **fudo net negyddol** ac i raddau llai **newid naturiol negyddol.**





## Poblogaeth 65+ yn parhau i heneiddio


(**+17.2%** ers 2011).

oherwydd:


- Gwelliannau mewn disgwyliad oed
- Cenhedlaeth y cynnydd yn heneiddio
- Graddau genedigaethau is
- Mewnfudiad o oedolion hŷn




Nifer y **plant** a phobl **oedran gwaith** wedi **gostwng** ers 2011.





Nifer y **myfyrwyr** wedi **gostwng** tua 30% ers 2011.




*Mae'n bosibl bod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar breswylfa myfyriwr ar y diwrnod cyfrifo. Gall newidiadau fod wedi bod yn rhai dros dro.

Rhagamcaniadau poblogaeth ddiweddaraf (seiliedig ar 2018) yn amcangyfrif bod y boblogaeth yn mynd i **barhau i ostwng**.

*Rhagamcanion newydd (seiliedig ar 2022) yn amcangyfrif gostyngiad mwy graddol oherwydd cynnydd diweddar yn y boblogaeth.




Ffynhonnell: Swyddog Ystadegau Gwladol (SYG)– Cyfrifiad 2011 a 2021.
Highest Education Statistics Agency (HESA), 2011 i 2022.
SYG – Amcangyfrifon Canol Blwyddyn a Cydrannau Newid, 2011 i 2023.

# Crynodeb Gweithredol

## Trosolwg

Mae’r Papur Pwnc hwn yn rhan o gyfres o bum adroddiad pwrpasol gan Gyngor Sir Ceredigion sy’n dadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2021. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r newid diweddar yn y boblogaeth yng Ngheredigion a sut y gall tueddiadau demograffig newid yn y dyfodol. Mae deall sut mae poblogaeth Ceredigion yn newid, a sut y bydd hyn yn effeithio ar y galw am amrywiaeth o wasanaethau, yn hollbwysig ar gyfer ar gyfer cynllunio, dyrannu cyllid, a chomisiynu gwasanaethau.

## Canfyddiadau Allweddol

Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig **COVID-19**, ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli’r canlyniadau gan fod gan y data agweddau **unigryw i’r pandemig** ac efallai **na fyddant** yn adlewyrchu’r sefyllfa bresennol.

Mae **deinameg ddemograffig** Ceredigion wedi gweld newidiadau **nodedig** ers y cyfrifiad blaenorol yn 2011.

**Gostyngodd poblogaeth Ceredigion 5.8%** (sy'n cyfateb i golli 4,500 o drigolion) rhwng 2011 a 2021, yn ystod yr un cyfnod, tyfodd poblogaeth Cymru 1.4%. Ceredigion welodd y gostyngiad mwyaf mewn poblogaeth ar lefel genedlaethol.

Yn gadarnhaol, yn ystod **y blynyddoedd diwethaf**, mae’r gostyngiad yn y boblogaeth yn ystod y ddeng mlynedd wedi cildroi’n sylweddol. Ers 2021, mae poblogaeth Ceredigion wedi bod yn cynyddu, o 70,676 yn 2021 i 73,050 (+3.4% / 2,374), yn ôl amcangyfrifon canol-blwyddyn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Y prif ffactor sy’n sbarduno’r cynnydd hwn yw **mudo mewnol net cadarnhaol** o oedolion ifanc (h.y., mwy o bobl yn symud i’r sir o weddill y DU nag sy’n gadael).



Mae nifer o resymau posibl wedi'u cynnig dros y cynnydd diweddar yn y boblogaeth; niferoedd myfyrwyr yn dychwelyd i'r lefel cyn y pandemig , llai o bobl ifanc yn gadael y sir, a/neu gywiro tangyfrif posibl ym mhoblogaeth myfyrwyr yng Nghyfrifiad 2021, i enwi ond rhai, fodd bynnag, mae'n **rhy gynnar** i bennu'n union beth sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae hon yn **duedd gadarnhaol**, yn enwedig ar ôl degawd o ddiboblogi.



Rhwng y ddau gyfrifiad (2011 a 2021), **parhaodd poblogaeth** Ceredigion **i heneiddio** wrth i ddisgwyliad oes gynyddu ychydig (er yn araf) ac wrth i gyfraddau ffrwythlondeb aros yn sefydlog. Mae'r newid yn y strwythur oedran hwn yn **cyflwyno sawl her** i'r Cyngor wrth iddo geisio addasu ei wasanaethau i anghenion newidiol y boblogaeth a sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau yn y dyfodol.



Mae **nifer y plant** (0 i 15 oed) a **phobl o oedran gweithio** (16 i 64 oed) wedi **gostwng** dros y degawd, a hynny oherwydd cyfradd genedigaethau is ac allfudo oedolion. Tra bod **preswylwyr 65 oed a hŷn** wedi **cynyddu'n sylweddol**. Yn ogystal â gwelliannau mewn disgwyliad oes, mae'r twf hwn yn cael ei ddylanwadu gan oedolion hŷn yn symud i'r sir, a'r garfan oedran pwysig o genhedlaeth y '*baby boom*' ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn heneiddio.



Mae poblogaeth Ceredigion yn cael ei dylanwadu'n sylweddol gan nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru yn y prifysgolion. Mae'n debygol bod Cyfrifiad 2021 wedi **tangyfrif** nifer y myfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Ngheredigion, gan fod **cyfyngiadau'r Pandemig Covid-19** wedi arwain at newidiadau yn nhrefniadau byw myfyrwyr. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bendant yw bod y boblogaeth myfyrwyr wedi **gostwng** yn sylweddol ers 2011, gan oddeutu 30%, sy'n cael ei gefnogi gan wahanol ffynonellau (y Cyfrifiad a HESA).



Darparodd y cyfrifiad wybodaeth am **wlad geni trigolion**, ac mae rhai **newidiadau bach** wedi digwydd ers 2011. Mae trigolion a anwyd **yng Nghymru** yn parhau i gynrychioli'r **mwyafrif o'r boblogaeth**, gyda 5 o bob 10 o bobl yng Ngheredigion wedi'u geni yng Nghymru yn 2021. Mae **nifer is** o drigolion a **anwyd yng Nghymru** a **Lloegr** yng Ngheredigion o'i gymharu â 2011 (er mai newidiadau bach iawn yw'r rhain o ran canran), a **chyfran ychydig yn uwch** o drigolion a anwyd **dramor**.




Mae **amcanestyniadau awdurdod lleol** Llywodraeth Cymru **ar sail 2018** yn awgrymu y bydd y gostyngiad yn y boblogaeth yn parhau yng Ngheredigion. Fodd bynnag, mae amcanestyniadau 2018 wedi **dyddio**, a dim ond yn ystyried tueddiadau cyn 2018, heb gynnwys y cynnydd diweddar yn y boblogaeth (2021 i 2023).



Bydd yr **amcanestyniadau newydd sy'n seiliedig ar 2022** yn cael eu cyhoeddi yn **2025**, ac mae'n debygol y bydd y rhain yn amcangyfrif **gostyngiad llai** dros y cyfnod o 25 mlynedd. Fodd bynnag, os bydd y tueddiadau cadarnhaol yn parhau (fel y gwelwyd rhwng 2021 a 2023), mae'n bosibl y bydd amcanestyniadau yn y dyfodol (megis y rhai ar sail 2024) yn **gwrthdroi'r duedd o ostyngiad yn y boblogaeth yn llwyr**.

# Tabl Cynnwys

**Crynodeb** ..... **2**

**Gweithredol** ..... **2**

**1.0 Cyflwyniad** ..... **5**

1.1 Cefndir ..... 5

1.2 Cyfrifiad ac Amcangyfrifon Canol Blwyddyn ..... 5

1.3 Cysoni ac Ailseilio’r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn ..... 5

1.4 Pandemig COVID-19 ..... 6

**2.0 Cymru: trosolwg** ..... **6**

2.2 Strwythur oed a rhyw ..... 9

2.3 Cydrannau newid ..... 10

**3.0 Ceredigion: trosolwg** ..... **12**

3.1 Cysoni ac Ailseilio Amcangyfrifon Canol Blwyddyn Ceredigion yn dilyn Cyfrifiad 2021 ..... 12

3.2 Newid Poblogaeth ..... 14

3.3 Strwythur oed a rhyw ..... 16

3.4 Poblogaeth myfyrwyr ..... 18

3.5 Gwlad geni ..... 19

3.6 Cydrannau Newid ..... 21

3.7 Amcanestyniadau Poblogaeth ..... 24

**4.0 Casgliad** ..... **26**

**5.0 Cyfeirnodau** ..... **28**

Atodiad 1: Newid Poblogaeth yn ôl Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is ..... 29

Atodiad 2: Newid ffiniau ACEHI (Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is) ..... 31

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

Mae’r Papur Pwnc hwn yn rhan o gyfres o bum adroddiad pwrpasol gan Gyngor Sir Ceredigion sy’n dadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2021. Mae’r adroddiad yn archwilio’r newid diweddar yn y boblogaeth yng Ngheredigion a sut y gallai hyn newid yn y dyfodol. Mae deall sut mae poblogaeth Ceredigion yn newid, a sut y bydd hyn yn effeithio ar y galw am amrywiaeth o wasanaethau, yn hanfodol ar gyfer cynllunio, dyrannu cyllid, a chomisiynu gwasanaethau. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon poblogaeth presennol a’r dyfodol, bydd nifer o wahanol ffynonellau’n cael eu harchwilio yn y dadansoddiad hwn. Bydd data’r cyfrifiad yn cael ei ddadansoddi’n bennaf, ond bydd ffynonellau gweinyddol eraill, megis Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon Poblogaeth yr Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru, a data gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), hefyd yn cael eu defnyddio.

## 1.2 Cyfrifiad ac Amcangyfrifon Canol Blwyddyn

Mae'r cyfrifiad yn digwydd bob deng mlynedd ac mae'n broses ddeddfwriaethol sy'n cael ei lywodraethu gan Ddeddf Cyfrifiad 1920. Mae’n ofynnol yn ôl y gyfraith i drigolion lenwi’r cyfrifiad, sy'n ei golygu mai dyma’r ffynhonnell ddata fwyaf awdurdodol ar y boblogaeth. Rhwng pob cyfrifiad, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif maint a strwythur y boblogaeth i gynhyrchu'r amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn. Caiff amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn eu cynhyrchu gan ddefnyddio amcangyfrif y cyfrifiad blaenorol, sydd wedyn yn cael ei gario ymlaen bob blwyddyn drwy ychwanegu genedigaethau, tynnu marwolaethau, ac amcangyfrif mudo net. Caiff y boblogaeth ei hamcangyfrif yng nghanol y flwyddyn (30 Mehefin). Gelwir y ffactorau sy’n sbarduno twf yn y boblogaeth (genedigaethau, marwolaethau a mudo) yn gydrannau newid.

Cynhaliwyd y cyfrifiad diweddaraf yng Nghymru a Lloegr ar 21 Mawrth 2021 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae’n rhoi darlun o’r boblogaeth breswyl arferol[1] yng Ngheredigion ar y dyddiad hwn ac yn cynnig mewnwelediad i sut mae ein poblogaeth leol wedi newid dros y degawd diwethaf. Mae’r cyfrifiad yn ffynhonnell hollbwysig o wybodaeth ar gyfer llunio polisïau llywodraeth leol a chynllunio’r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus. Yn ogystal, fe'i defnyddir fel llinell sylfaen ar gyfer amcangyfrifon ac amcanestyniadau poblogaeth.

## 1.3 Cysoni ac Ailseilio’r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn

Dros y cyfnod o ddeng mlynedd rhwng cyfrifiadau, gall yr Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn wahaniaethu’n raddol rhwng canlyniadau'r cyfrifiad nesaf. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn disgwyl hyn, ac yn ymchwilio’n rheolaidd i faint a’r rheswm dros y gwahaniaeth, er mwyn diweddaru’r amcangyfrifon poblogaeth yn unol â hynny. Mae hyn yn arwain at y ‘set hanesyddol’ o Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn a ddefnyddiwyd yn flaenorol, wedi’u cario ymlaen o Gyfrifiad 2011, a set o Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn

[1] *Y boblogaeth breswyl arferol yw unrhyw un a oedd yn y DU ar Ddiwrnod y Cyfrifiad (21 Mawrth 2021), ac a oedd wedi aros neu'n bwriadu aros yn y DU am gyfnod o 12 mis neu fwy, neu a oedd â chyfeiriad parhaol yn y DU ac y tu allan i'r DU ar y pryd, ond yn bwriadu aros y tu allan i'r DU am lai na 12 mis.*

wedi'u hailsylfaenu, yn seiliedig ar Gyfrifiad diweddaraf 2021. Mae'r broses hon yn arbennig o bwysig yn dilyn Cyfrifiad 2021 gan fod pandemig COVID-19 yn debygol o fod wedi cynyddu'r ansicrwydd o amgylch yr Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn yn fwy nag arfer. Esbonnir proses a chanlyniad yr ymarfer cysoni ac ailsylfaenu ar gyfer Ceredigion yn Adran 3.1.

### 1.4 Pandemig COVID-19

Mae'n werth nodi bod Cyfrifiad 2021 wedi digwydd yn ystod cyfnod o darfu eithriadol. Ar adeg y cyfrifiad (21 Mawrth 2021), roedd y DU yn dal o dan gyfyngiadau'r trydydd cyfnod clo cenedlaethol oherwydd pandemig COVID-19. Yng Nghymru, roedd y rheol 'aros yn lleol' [2] newydd gael ei gorfodi ac ni chaniatawyd i fyfyrwyr ddychwelyd i gampysau prifysgol. Felly, mae'n debygol iawn bod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar batrymau poblogaeth arferol a lleoliad preswyl arferol pobl. Er enghraifft, efallai bod myfyrwyr, pobl ifanc ar ffyrlo a gweithwyr mudol o dramor wedi symud dros dro i gartrefi teuluol y tu allan i'r sir. Mae'n debygol bod y tarfu hwn ar leoliad preswyl arferol pobl (yn enwedig myfyrwyr) wedi cael effaith negyddol ar boblogaeth Ceredigion.

Tybir bod yr amcangyfrifon poblogaeth a gofnodwyd gan y cyfrifiad yn gywir (mae'r fethodoleg yn gadarn ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnal proses sicrhau ansawdd fanwl iawn). Fodd bynnag, bydd gan y cyfnod pan gasglwyd y data (Mawrth 2021) agweddau unigryw i'r pandemig ac felly nid yw'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Mae angen ystyried data'r cyfrifiad yn y cyd-destun hwn, fel 'ciplun o amser penodol' o'r boblogaeth ar 21 Mawrth, 2021.

Bydd y Papur Pwnc hwn yn cynnwys dwy brif adran: trosolwg o newidiadau poblogaeth yng Nghymru, a dadansoddiad manwl o'r newid yn y boblogaeth yng Ngheredigion.


## 2.0 Cymru: trosolwg

### 2.1 Newid Poblogaeth

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 3.107 miliwn o drigolion arferol yng Nghymru yn 2021. Mae'r boblogaeth yn parhau i gynyddu yng Nghymru ac mae'r cyfrifiad diweddaraf yn adrodd mai dyma'r boblogaeth fwyaf a gofnodwyd erioed, fodd bynnag, mae lefel y twf yn dechrau arafu (Ffigur 1). Rhwng Cyfrifiad 2001 a 2011, tyfodd poblogaeth Cymru 5.5% (+160,400 o drigolion), fodd bynnag, rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021, gostyngodd hyn i 1.4% (+44,000 o drigolion). Roedd cyfradd twf y boblogaeth yng Nghymru (1.4%) yn sylweddol is nag yn Lloegr, lle cynyddodd y boblogaeth 6.6%. Yn ogystal, gwelodd pob rhanbarth yn Lloegr dwf uwch yn y boblogaeth nag yng Nghymru. Yn y ddwy flynedd ar ôl Cyfrifiad 2021, mae poblogaeth Cymru wedi tyfu'n gyflymach, o 1.8% i 3,164,000 (rhwng 2021 a 2023). Prif ysgogiad y cynnydd hwn yn y boblogaeth yw mudo net, sydd wedi'i egluro ymhellach yn Adran 2.3 Cydrannau Newid.

[2] *Roedd y rheol aros yn lleol yn golygu y gallai pobl adael eu cartrefi a theithio o fewn eu hardal leol – fel arfer o fewn 5 milltir.*


**Ffigur 1: Poblogaeth arferol Cymru - Amcangyfrifon Canol Blwyddyn a'r Cyfrifiad**




Ffynhonnell: *SYG, Cyfrifiad 1981, 2001, 2011 a 2021; Amcangyfrifon Canol Blwyddyn y SYG (1981-2022).*[3][4]

Mae Ffigur 2 isod yn amlinellu poblogaeth amcangyfrifedig dau ar hugain o awdurdodau lleol Cymru ar 21 Mawrth 2021. Yr awdurdod lleol â'r boblogaeth fwyaf yn 2021 oedd Caerdydd (362,400 o drigolion), a'r awdurdod lleol â'r boblogaeth leiaf oedd Merthyr Tudful (58,800 o drigolion).

**Ffigur 2: Poblogaeth breswyl arferol yn ôl awdurdod lleol, Cymru, 2021**




*Ffynhonnell: SYG (2023), Cyfrifiad 2021.*[5]


[3] SYG (2023). Amcangyfrifon o boblogaeth Cymru a Lloegr. Ar gael yn: [Estimates of the population for England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)]

[4] NOMIS (2022). Cyfrifiad poblogaeth. Ar gael yn: [Census of Population - Data Sources - home - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)]

[5] SYG (2023). TS001 – Nifer y preswylwyr arferol mewn cartrefi a sefydliadau cymunedol. Ar gael yn: [Nomis - Official Census and Labour

Mae gwahanol awdurdodau lleol wedi profi graddau amrywiol o newid yn y boblogaeth (gweler Ffigur 3 isod). Mae'r awdurdodau lleol i'r de o goridor yr M4 wedi profi twf uwch yn y boblogaeth dros y degawd (rhwng 2011 a 2021). Casnewydd a welodd y cynnydd mwyaf ym mhoblogaeth Cymru (9.5%), sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru (1.4%) a Lloegr (6.6%). Mewn cyferbyniad, nododd saith awdurdod lleol boblogaethau is yn 2021 o'i gymharu â 2011, a bu'r gostyngiadau mwyaf yng Ngheredigion (5.8%), Blaenau Gwent (4.2%) a Gwynedd (3.7%). O blith y 22 ardal awdurdod lleol, Ceredigion a brofodd y gostyngiad mwyaf yn y boblogaeth dros y degawd.

**Ffigur 3: Newid i'r boblogaeth ar draws y ddau ar hugain awdurdod lleol yng Nghymru, rhwng y Cyfrifiadau yn 2011 a 2021.**




*Ffynhonnell: SYG – Cyfrifiadau 2011 a 2021.*

---


[Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)](https://www.nomisweb.co.uk)

Yn nodedig, gall newid yn y boblogaeth mewn rhai awdurdodau lleol adlewyrchu sut effeithiodd pandemig COVID-19 ar ddewis pobl o ran eu preswylfa arferol ar Ddiwrnod y Cyfrifiad. Efallai nad yw'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, a gallai'r wybodaeth ddiweddaraf o'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn awgrymu mai newidiadau dros dro oedd y newidiadau o ran man preswylio arferol trigolion mewn rhai awdurdodau lleol.

## 2.2 Strwythur oed a rhyw

Mae'n parhau i fod ychydig yn fwy o fenywod na dynion yng Nghymru ac mae'r duedd o ran y boblogaeth yn heneiddio wedi parhau, gyda chynnydd yn y gyfran o unigolion sy'n 65 oed a hŷn. Mae Ffigur 4 isod yn amlinellu strwythur oedran a rhyw Cymru yn 2011 a 2021, fel y'i cofnodwyd gan y cyfrifiadau.

**Ffigur 4: Poblogaeth yn ôl Oedran a Rhyw 2011 a 2021, Cymru**




*Ffynhonnell: SYG, 2011 a 2021 Cyfrifiad.*

Prin iawn yw'r newid yn y gymhareb rhwng dynion a menywod yng Nghymru ers Cyfrifiad 2011. Amcangyfrifodd Cyfrifiad 2021 fod 1,586,600 o fenywod (51.1% o'r boblogaeth gyffredinol) a 1,521,000 o ddynion (48.9%) yng Nghymru yn 2021 (o'i gymharu â 50.9% o fenywod a 49.1% o ddynion yn 2011).

Fodd bynnag, mae dosbarthiad oedran yng Nghymru wedi newid yn sylweddol ers 2011. Mae mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn y grwpiau oedran hŷn, ac mae tuedd o ddirywiad yn y boblogaeth ymhlith trigolion o oedran gweithio a phlant dros y degawd yn amlwg. Roedd dros un rhan o bump o boblogaeth Cymru yn 2021 yn 65 oed a throsodd (21.3%/ 622,043 o drigolion), mae hyn yn gynnydd o 17.7% (+99,499)


ers Cyfrifiad 2011. Yn 2021, roedd bron i ddwy ran o dair o boblogaeth Cymru rhwng 16 a 64 oed (61.1%/ 1,931,800) - gostyngiad o 2.4% (-49,984) ers 2011. Roedd y 16.5% sy'n weddill (513,800) o'r boblogaeth yng Nghymru yn 2021 yn blant (15 oed ac iau). Yn yr un modd, mae maint y grŵp oedran hwn wedi profi gostyngiad bach ers 2011 (-1.0%), pan oedd 16.9% (519,128) yn 15 oed ac iau.

Roedd dosbarthiad yr oedrannau yn amrywio ar draws y 22 ardal awdurdod lleol. Yn gyffredinol, roedd canran uwch o bobl hŷn wedi'u lleoli yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru, tra bod y poblogaethau iau yn byw yn ardaloedd trefol De Cymru.

## 2.3 Cydrannau newid

Mae archwilio cydrannau newid ym mhoblogaeth Cymru yn datgelu'r ffactorau sydd wedi sbarduno'r cynnydd yn y boblogaeth ers 2011. Mae'r ffactorau sy'n ysgogi twf yn y boblogaeth yng Nghymru wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf, gyda mudo net bellach yn cyfrannu mwy at y cynnydd na newid naturiol[6] (h.y., y gwahaniaeth rhwng genedigaethau a marwolaethau). Rhwng canol 2011 a chanol 2014, roedd y cynnydd yn y boblogaeth yng Nghymru wedi'i yrru gan newid naturiol, ond o 2014 ymlaen, roedd mudo net[7] wedi cyfrannu mwy at hyn na newid naturiol (cyfeiriwch at Ffigur 5 isod).

**Ffigur 5: Gyrwyr twf poblogaeth Cymru, canol 2011 i ganol 2022.**




*Ffynhonnell: Stats Cymru (2024), Cydrannau newid yn y boblogaeth, yn ôl cyfnod amser a chydran.*


Mae cyfradd genedigaethau wedi gostwng yn gyffredinol, gyda'r nifer lleiaf erioed o enedigaethau wedi'i gofnodi yng nghanol 2020 (27,972), tra bod cyfradd marwolaethau wedi gweld cynnydd bach, gan gyrraedd uchafswm o 36,359 o farwolaethau yng nghanol 2019. Mae mudo mewnol a rhyngwladol wedi cynyddu'n sylweddol, gyda'r ffigur mudo net uchaf erioed wedi'i gofnodi yng nghanol 2022, sef 32,586.

[6] Newid naturiol: cyfradd genedigaethau, tynnu'r gyfradd marwolaethau o fewn poblogaeth benodol dros gyfnod amser penodol.
[7] Mudo net: llif net y mudwyr i mewn ac allan o ardal. Hynny yw, mewnfudo tynnu allfudo.

Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ffigur yng nghanol 2011 pan oedd mudo net yn 8,434. Er mwyn rhoi hyn yn ei gyd-destun, roedd 121.6% o'r cynnydd yn y boblogaeth rhwng 2011 a 2021 oherwydd cyfraniad uniongyrchol mudo net. Mae'r ganran hon yn uwch na 100% oherwydd bod y newid naturiol yn y boblogaeth yn negyddol, sy'n golygu bod mudo net nid yn unig yn gwneud iawn am y gostyngiad naturiol ond hefyd yn cyfrannu at gynnydd cyffredinol.

Wrth edrych yn fanylach ar batrymau mudo rhwng 2011 a 2022, mae'r cynnydd diweddar mewn mudo net yn deillio'n bennaf o fudo rhyngwladol (gweler Ffigur 6 isod). Bu gostyngiad mewn mudo net yn ystod 2020 a hanner cyntaf 2021, cyn i fewnfudo gynyddu i'r uchaf erioed erbyn diwedd y flwyddyn 2022. Profwyd y tueddiadau hyn hefyd ar raddfa'r DU.

**Ffigur 6: Mudo Mewnol a Rhyngwladol, 2011 i 2022, Cymru.**




*Ffynhonnell: Stats Cymru (2024), Cydrannau newid yn y boblogaeth, yn ôl cyfnod amser a chydran.*

Mae'r newid amlwg diweddar mewn patrymau mudo yng Nghymru (a'r DU gyfan) ers 2021 yn cael ei yrru gan sawl ffactor. Mae mudo net wedi'i yrru gan gynnydd mewn mewnfudo o'r tu allan i'r UE (hynny yw, pobl sy'n cyrraedd drwy lwybrau dyngarol, yn ogystal â myfyrwyr a gweithwyr).[8] Mae diwedd symudiad rhydd y rhai o'r Undeb Ewropeaidd ynghyd â chyflwyno system fewnfudo newydd ym mis Ionawr 2021, llacio cyfyngiadau COVID-19 ym mis Mai 2022, a digwyddiadau allanol fel y rhyfel yn Wcráin (Chwefror 2022), i gyd wedi cael effaith. Oherwydd y cyfuniad o'r ffactorau hyn, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi disgrifio'r cyfnod hyd at ddiwedd 2022 fel un "unigryw".[9]

I gloi, mae'r newid o dwf yn y boblogaeth yn seiliedig ar ffactorau naturiol (mwy o enedigaethau na marwolaethau) i fod yn newid o achos mudo net, a hwnna fel y prif ysgogiad ers 2011, yn deillio o ffactorau

[8] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023). Mudo rhyngwladol tymor hir, dros dro: blwyddyn yn dod i ben Mehefin 2023. Ar gael yma: Mudo rhyngwladol tymor hir, dros dro – Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[9] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023). Mudo rhyngwladol tymor hir, dros dro: blwyddyn yn dod i ben Rhagfyr 2022. Ar gael yma: Mudo rhyngwladol tymor hir, dros dro – Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

megis y boblogaeth yn heneiddio, gostyngiad mewn cyfradd genedigaethau, effaith COVID-19, a phatrymau mudo sy'n newid (fel y cyfeirir ato uchod).

## 3.0 Ceredigion: trosolwg

Bydd yr adrannau canlynol yn rhoi trosolwg o boblogaeth Ceredigion a sut mae wedi newid ers 2011, gan ddadansoddi'r strwythur oedran a rhyw a'r cydrannau sy'n cyfrannu at y newidiadau hyn. Mae'r penodau dilynol yn dadansoddi data a thueddiadau demograffig ar lefel awdurdod lleol. I weld y newid yn y boblogaeth rhwng 2011 a 2021 ar draws ardaloedd sy'n llai yn ddaearyddol yng Ngheredigion, megis Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is, cyfeiriwch at Atodiad 1.

Cyn trafod deinameg y boblogaeth yng Ngheredigion, mae'n bwysig esbonio'r ymarfer cysoni ac ailsylfaenu a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n digwydd bob tro y cynhelir cyfrifiad. Trwy ddeall y gwahaniaethau rhwng yr Amcangyfrifon Canol Blwyddyn hanesyddol a'r rhai sydd wedi'u hailsylfaenu, all defnyddwyr sicrhau eu bod yn defnyddio'r data mwyaf cywir a pherthnasol wrth wneud penderfyniadau.

### 3.1 Cysoni ac Ailseilio Amcangyfrifon Canol Blwyddyn Ceredigion yn dilyn Cyfrifiad 2021

Cysoni yw'r broses o gymharu'r amcangyfrifon swyddogol canol-blwyddyn newydd ar gyfer canol 2021 (a darddwyd gan ddata Cyfrifiad 2021) gyda'r amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn ar gyfer canol 2021 (sef yr amcangyfrifon a fyddai wedi'u datblygu yn absenoldeb cyfrifiad, h.y., amcangyfrifon canol 2021 wedi'u cario ymlaen o ganol 2020).**10** Mae'r gymhariaeth rhwng y ddau fath gwahanol o amcangyfrifon poblogaeth yn dangos faint mae'r ffigurau poblogaeth wedi gwyro yn ystod y cyfnod rhwng y ddau gyfrifiad.


Er bod ailsylfaenu yn dilyn y broses gysoni ac yn anelu at ledaenu'r gwahaniaethau a welwyd dros y degawd diwethaf,**11** mae hyn yn cywiro unrhyw anghysondebau a allai fod wedi cronni dros amser oherwydd gwallau amcangyfrif. Mae'r ymarfer ail-sylfaenu a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn addasu'r amcangyfrifon hanesyddol (Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2011 wedi'u cyflwyno ymlaen) i alinio â data newydd Cyfrifiad 2021, gan arwain at yr Amcangyfrifon Canol Blwyddyn wedi'u hailsylfaenu (2012 i 2020). Yr amcangyfrifon wedi'u hailsylfaenu yw'r amcangyfrifon poblogaeth swyddogol, ac maent yn disodli'r gyfres flaenorol o ganol 2012 i ganol 2020. Os yw'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn yn cael eu defnyddio ar gyfer cynllunio, dyrannu adnoddau neu amcanestyniadau, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r broses ailsylfaenu ac ystyried yr effeithiau y mae'n ei chael ar ddefnydd ystadegau poblogaeth hanesyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Cydnabyddir y gall setiau gwahanol o amcangyfrifon canol-blwyddyn a ddarperir ar ôl cyfrifiad beri dryswch. Mae Ffigur 7 isod yn amlinellu'r Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn wedi'u cario ymlaen o 2011 (a elwir yn Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn cyn Cyfrifiad 2021), yr Amcangyfrifon wedi'u hailsylfaenu (a elwir

[10] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). Ailsylfaenu a chysoni amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yn dilyn Cyfrifiad 2021, Cymru a Lloegr: 2022. Ar gael yma: [Ailsylfaenu a chysoni amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yn dilyn Cyfrifiad 2021, Cymru a Lloegr: 2022 - Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)]
[11] Ibid.

yn Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn Ar ôl Cyfrifiad 2021), a ffigur poblogaeth Cyfrifiad 2021 ar gyfer Ceredigion.

**Ffigur 7: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn Cyn ac Ôl Cyfrifiad 2021 ar gyfer (2012 i 2023)**




*Ffynhonnell: SYG, Amcangyfrifon Canol Blwyddyn (2012 i 2023)[12], SYG, Amcangyfrifon Canol Blwyddyn[13]*

Fel yr adlewyrchir uchod, mae gwahaniaeth rhwng Amcangyfrifon Canol Blwyddyn Cyfrifiad cyn 2021 a'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn wedi'u hailsylfaenu ar ôl Cyfrifiad 2021, yn enwedig wrth i ni symud ymhellach i ffwrdd o'r Cyfrifiad blaenorol yn 2011. Mae'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn Cyfrifiad cyn 2021 yn dangos poblogaeth uwch na'r Cyfrifiad ar ôl 2021 rhwng 2015 a 2020, sy'n cynyddu gydag amser. Disgwylir yr 'wyriad' hwn gan fod dibynadwyedd yr Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn yn lleihau dros amser ers y Cyfrifiad diwethaf.

Ar yr olwg gyntaf, mae'r gwahaniaethau rhwng yr amcangyfrifon wedi'u cario ymlaen a'r rhai wedi'u hailsylfaenu yn awgrymu goramcangyfrif yn yr Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn cyn Cyfrifiad 2021 (wedi'u cario ymlaen o Gyfrifiad 2011). Daeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol i'r casgliad bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyffredinol wedi profi ychydig o oramcangyfrif yn yr Amcangyfrifon Canol Blwyddyn wedi'u cyflwyno o'i gymharu â'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn wedi'u hailsylfaenu, ac roedd hyn yn bennaf oherwydd y gydran ymfudo. Priodolodd adroddiad cysoni'r Swyddfa Ystadegau Gwladol**14** y gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrifon wedi'u cario ymlaen a'r rhai wedi'u seilio ar y cyfrifiad ar gyfer Ceredigion (+1,836/2.53%) i'r boblogaeth o fyfyrwyr sydd yn symud yn aml. Awgryma'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod y goramcangyfrif ymhlith pobl ymhell mewn i'w hugeiniau a'r tanamcangyfrif ymhlith preswylwyr yn

[12] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024). Amcangyfrifon o boblogaeth y DU, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ar gael yn: Estimates of the population for the UK, England, Wales, Scotland, and Northern Ireland - Swyddfa Ystadegau Gwladol

[13] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021). Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ar gael yn: Estimates of the population for the UK, England, Wales, Scotland, and Northern Ireland - Swyddfa Ystadegau Gwladol

[14] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023). Cysoni amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn â Chyfrifiad 2021 ar lefel awdurdod lleol. Ar gael yn: Cysoni amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn â Chyfrifiad 2021 ar lefel awdurdod lleol - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

eu tridegau canol yn gysylltiedig â'r anhawster i gofnodi graddedigion ar ôl iddynt orffen eu hastudiaethau. Fodd bynnag, mae'n hanfodol mynd i'r afael â'r rhagdybiaeth hon o oramcangyfrif yn ofalus, oherwydd ein pryderon ynghylch tangyfrif posibl ffigur poblogaeth Cyfrifiad 2021 ar gyfer Ceredigion (fel yr adlewyrchir yn Adran 3.4 Poblogaeth Myfyrwyr).

Er bod yr Amcangyfrifon Canol Blwyddyn wedi'u hailsylfaenu'n cael eu hystyried yn fwy cywir yn swyddogol, mae amgylchiadau unigryw Cyfrifiad 2021 yn gofyn am ystyriaeth ofalus. Mae'r amcangyfrifon wedi'u hailsylfaenu'n cynnwys data mwy diweddar a gwybodaeth am brif ysgogwyr newid poblogaeth, y gobaith yw eu bod wedi cywiro'r tanamcangyfrif Cyfrifiad 2021. Fodd bynnag, mae'n anodd deall graddfa'r cywiriad hwn. Bydd y Tîm Ymchwil yn parhau i ymgynghori â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac yn sicrhau bod unrhyw ansicrwydd yn cael ei gyfathrebu'n glir i'r uwch reolwyr.

## 3.2 Newid Poblogaeth


Yn 2021, roedd poblogaeth Ceredigion yn 71,468 sy'n ostyngiad o 5.8% ers y cyfrifiad blaenorol a gynhaliwyd yn 2011 (Ffigur 8).15 Mae hyn yn sylweddol is na'r twf o 1.4% a gofnodwyd ar gyfer Cymru (cyfeiriwch at Bennod 2.0) a dyma'r gostyngiad mwyaf ar draws pob un o'r 22 ardal awdurdod lleol. Cefnogir y gostyngiad yn y boblogaeth dros y cyfnod hwn gan gyfres yr Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn wedi'u hailsylfaenu16, a ostyngodd o uchafbwynt o 76,215 yn 2012 i 70,676 yn 2021.

Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r duedd rhwng 2021 a 2023 yn dangos cildroi sylweddol yn erbyn y gostyngiad yn y boblogaeth a welwyd dros y degawd blaenorol. Amcangyfrifir bod y boblogaeth breswyl wedi cynyddu 3.4% (+2,374 o drigolion) o 70,676 yng nghanol 2021 i 73,050 yng nghanol 2023. Mae'r ffactorau sy'n ysgogi'r cynnydd diweddar hwn yn cael eu harchwilio yn Adran 3.6 Cydrannau Newid yn y Boblogaeth.

[15] Stats Cymru (2022). Poblogaeth breswyl arferol yn ôl oedran ac awdurdod lleol. Ar gael yma: Poblogaeth breswyl arferol yn ôl oedran ac awdurdod lleol (llyw.cymru)

[16] *Defnyddir yr Amcangyfrifon Canol Blwyddyn (2012-2021) wedi'u hailsefydlu ac felly maent ychydig yn wahanol i ddata hanesyddol. Ar ôl y Cyfrifiad, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnal proses ailsylfaenu a chysoni i alinio'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn yn well â'r amcangyfrif poblogaeth o'r Cyfrifiad. Mae'r amcangyfrifon hyn yn dod yn amcangyfrifon poblogaeth swyddogol, gan ddisodli'r cyfresi presennol o ganol 2012 i ganol 2020.*


**Ffigur 8: Poblogaeth trigolion arferol Ceredigion (2001-2023), Cyfrifiad a Amcangyfrifon Canol Blwyddyn**




*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2001, 2011 a 2021; SYG Amcangyfrifon Canol Blwyddyn (2001-2022).*

Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r newid yn y boblogaeth yng Ngheredigion a sut mae hyn yn cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, mae Ffigur 9 isod yn amlinellu'r newid blynyddol yn y boblogaeth rhwng 2001 a 2023. Mae'r gyfradd twf poblogaeth yng Ngheredigion yn sylweddol is ac yn fwy cyfnewidiol na'r gyfradd twf cenedlaethol. Yn gyffredinol, profodd Ceredigion gyfraddau twf blynyddol negyddol, tra bod Cymru wedi profi cyfraddau twf blynyddol cadarnhaol dros y cyfnod o 20 mlynedd (rhwng 2001 a 2021). Rhwng 2011 a 2021, profodd Ceredigion ostyngiad yn y boblogaeth gyda chyfradd twf blynyddol o -1.06%, tra gwelodd Cymru gynnydd yn y boblogaeth gyda chyfradd twf blynyddol o 0.14%. Mae effaith pandemig COVID-19 ar dwf poblogaeth oherwydd cyfyngiadau teithio yn cael ei ddangos yn glir.

**Ffigur 9: Cyfraddau twf poblogaeth blynyddol, 2001 i 2023, Cymru a Cheredigion**




*Ffynhonnell: SYG, Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2001-2023.*

Yn nodedig, roedd cyfradd twf y boblogaeth yng Ngheredigion a ledled Cymru rhwng 2022/23 yn uwch nag ar unrhyw adeg yn yr 20 mlynedd diwethaf. Yn achos Ceredigion, mae'r twf cymedrol hwn yn y boblogaeth yn deillio'n bennaf o fewnfudo mewnol, tra bod y cynnydd ar draws Cymru yn bennaf yn ganlyniad i fewnfudo rhyngwladol.

## 3.3 Strwythur oed a rhyw

Mae poblogaeth Ceredigion wedi parhau i heneiddio wrth i ddisgwyliad oes gynyddu ychydig (er yn araf) ac wrth i gyfraddau ffrwythlondeb aros yn sefydlog. Mae'r newid yn y strwythur oedran hwn yn cyflwyno sawl her i'r Cyngor wrth iddo geisio addasu ei wasanaethau i anghenion newidiol y boblogaeth. Crynhoir strwythur oedran newidiol poblogaeth Ceredigion ar draws y tri grŵp oedran eang rhwng 2011 a 2021 yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Poblogaeth a newid poblogaeth yn ôl tri grŵp oedran llydan, Ceredigion (2011 i 2021)**

| Grŵp Oedran | 2011 | 2011 | 2021 | 2021 | 2011 i 2021 (Newid) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | nifer | canran | nifer | canran | nifer | canran |
| Plant (0 i 15) | 11,230 | 14.8% | 10,081 | 14.1% | -1,149 | -10.2% |
| Oedran gweithio (16 i 64) | 48,987 | 64.5% | 43,002 | 60.2% | -5,985 | -12.2% |
| Hŷn (65+) | 15,705 | 20.7% | 18,385 | 25.7% | +2,680 | +17.2% |
| Cyfanswm | 75,922 | 100.0% | 71,468 | 100.0% | -4,454 | -5.8% |

*Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu

*Ffynhonnell: SYG, 2021 Cyfrifiad (TS009)*


Yr unig grŵp lle bu twf yw'r grŵp o breswylwyr dros 65 oed, mae'r boblogaeth hon wedi cynyddu 17.2% (+2,680) ers Cyfrifiad 2011, ac mae bellach yn cynnwys 25.6% o gyfanswm y boblogaeth breswyl. Mewn cymhariaeth, ledled Cymru, roedd 21.3% o gyfanswm y boblogaeth yn 65 oed a hŷn. Yn ogystal â gwelliannau mewn disgwyliad oes, mae'r twf hwn yn cael ei ddylanwadu gan oedolion hŷn yn symud i'r sir, a'r garfan oedran pwysig o genhedlaeth y 'baby boom' ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn heneiddio a fyddai rhwng 57 a 75 oed yn 2021.

Mae nifer y plant (0 i 15 oed) a phobl o oedran gweithio (16 i 64 oed) wedi gostwng dros y degawd. Mae nifer y plant wedi lleihau 10.2% (-1,149) ac, yn 2021, roeddent yn cynrychioli 14.1% o'r boblogaeth gyfan. Gellir priodoli'r gostyngiad hwn i gyfraddau geni is yng Ngheredigion (sy'n unol â'r duedd genedlaethol) a'i dangosir yn Nhabl 1 uchod a Ffigur 10 isod. Y grŵp oedran gweithio a brofodd y gostyngiad mwyaf (12.2%/ -5,985) ac roeddent yn cynrychioli 60.2% o'r boblogaeth gyfan yn 2021 (i lawr o 64.5% yn 2011).

Mae cyfran y plant yng Ngheredigion (14.1%) a'r grwpiau oedran gweithio (60.2%) yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol (17.6% a 61.1% yn y drefn honno). Roedd gan Geredigion y gyfran isaf o blant yn genedlaethol yn 2021, ac yna Powys (15.5%) a Sir Fynwy (15.8%), a'r bedwaredd ganran isaf o blant o dan 15 oed ar draws Cymru a Lloegr, ar ôl Dinas Llundain (10.7%), San Steffan (12.8%), a Kensington a Chelsea (13.0%).

Defnyddir pyramid poblogaeth i dynnu sylw at wahaniaethau oedran a rhyw ym mhoblogaeth Ceredigion a sut mae'r cyfansoddiad wedi newid ers 2011. Mae Ffigur 10 yn tynnu sylw at y ffaith bod gan Geredigion gyfran ychydig yn uwch o fenywod o'i gymharu â dynion ac mae'r duedd o heneiddio yn y boblogaeth yn amlwg.

**Ffigur 10: Poblogaeth Oed a Rhyw 2011 a 2021, Ceredigion**




*Ffynhonnell: SYG, 2011 Cyfrifiad (LC1117EW) a 2021 Cyfrifiad (TS009)*


## 3.4 Poblogaeth myfyrwyr

Mae poblogaeth newidiol a phroffil mudo mewnol Ceredigion yn cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac i raddau llai, ar Gampws Llanbedr Pont Steffan ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS).

Yn ôl y cyfrifiad, mae poblogaeth myfyrwyr Ceredigion wedi gostwng oddeutu 30.2% ers 2011 (gostyngiad o 2,988 o fyfyrwyr llawn amser dros 18 oed), o 9,893 yn 2011 i 6,905 yn 2021. Dylid trin graddfa'r gostyngiad hwn yn ofalus, oherwydd effaith gysylltiedig pandemig COVID-19. Mae'n debygol bod cau campysau, dysgu o bell, newidiadau dros dro i gartrefi preswyl, a dryswch neu wallau yn y ffordd y cofnododd myfyrwyr eu cyfeiriad yn ystod y cyfrifiad wedi arwain at dangyfrif yn y data. Roedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a Lloegr gyda chyfran uchel o fyfyrwyr hefyd yn credu bod Cyfrifiad 2021 wedi tanamcangyfrif eu poblogaeth breswyl oherwydd absenoldeb myfyrwyr ar adeg y cyfrifiad. **17**

Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn darparu ystadegau manwl am fyfyrwyr addysg uwch ac mae modd eu defnyddio ochr yn ochr â data'r cyfrifiad i ddeall tueddiadau mewn poblogaethau a chofrestru myfyrwyr. Fel y gwelir yn Ffigur 11, mae nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ôl HESA yn gyson uwch na chyfanswm poblogaeth myfyrwyr Ceredigion fel y'i cofnodwyd gan y cyfrifiad. Fodd bynnag, mae'r ddwy set ddata yn cyd-fynd o ran y duedd ddisgynnol ym mhoblogaeth y myfyrwyr yng Ngheredigion.

**Ffigur 11: Cymhariaeth o gofrestriadau myfyrwyr HESA ym Mhrifysgol Aberystwyth a phoblogaeth Myfyrwyr y Cyfrifiad (18 oed a throsodd), 2011 i 2022.**





*Ffynhonnell: HESA (2011-2022)[18] a SYG, 2021 Cyfrifiad[19]*

[17] Cyngor Dinas Manceinion (2023). Ar gael yma: Communities and Power (manchester.gov.uk)
[18] HESA (2024) Ble mae Myfyrwyr Addysg Uwch yn astudio? Ar gael yn: Where do HE students study? | HESA
[19]Y Swyddog Ystadegau Gwladol (2023). Y boblogaeth breswyl arferol mewn addysg amser llawn erbyn 18 i 30 oed. Ar gael yn: Usual resident population in full-time education by age 18 to 30 years, England and Wales: Census 2021 - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

Yn 2021, roedd 8,040 o fyfyrwyr llawn amser wedi cofrestru ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn ôl HESA. Yn ôl Campws Llambed (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant), roedd tua 180 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru yn y Brifysgol yn 2022/23. Mae hyn yn awgrymu bod y ffigurau cofrestru myfyrwyr oddeutu 1,495 yn uwch na'r hyn a gofnodwyd gan y cyfrifiad yn 2021. Fodd bynnag, mae'r ddwy ffynhonnell ddata yn dangos gostyngiad sylweddol ym mhoblogaeth myfyrwyr dros y cyfnodau priodol. Mae maint y gostyngiad yn debyg yn y ddwy set ddata (tua 30% i 32%), sy'n atgyfnerthu dibynadwyedd y duedd ddisgynnol.

Mae'r mwyafrif helaeth (tua 80%) o fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cynnwys myfyrwyr o'r DU, fodd bynnag, mae'r grŵp hwn wedi profi gostyngiad sy'n fwy o'i gymharu â myfyrwyr rhyngwladol. Roedd y gostyngiad o 31.3% yn nifer y myfyrwyr a gofrestrwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi'i yrru'n bennaf gan ostyngiad yn nifer y myfyrwyr yn y DU (-3,235/ 88.3%), ac i raddau llai gan fyfyrwyr rhyngwladol (gostyngiad o 505 o fyfyrwyr / 27.3%) rhwng 2011/12 a 2020/21 (Ffigur 12).

**Ffigur 12: Nifer y myfyrwyr o'r DU a'r tu allan i'r DU sydd wedi cofrestru ym Mhrifysgol Aberystwyth 2011/12 i 2021/22**




*Ffynhonnell: HESA (2024)* [20]

Mae gwahaniaethau bach yn y methodoleg a ddefnyddir gan bob ffynhonnell (Cyfrifiad a HESA), o ran cwmpas, yr hyn sydd yn cael sylw, a therfynau amser, a allai egluro rhai o'r amrywiadau rhwng y ffigurau. Felly, mae'n anodd mesur i ba raddau y mae'r gostyngiad ym mhoblogaeth myfyrwyr, fel y'i cofnodwyd gan y cyfrifiad, yn adlewyrchu tuedd hirdymor go iawn neu oherwydd y newidiadau dros dro i drefniadau byw oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID-19.


## 3.5 Gwlad geni

Mae'r adran hon yn edrych ar ddata'r cyfrifiad ar drigolion yn ôl gwlad enedigol, sy'n rhoi mewnwelediad pwysig ar faint y poblogaethau mudol cenhedlaeth gyntaf yn y Sir a sut mae pethau wedi newid ers 2011. Yn aml, gwlad enedigol yw'r mesur a ffefrir wrth edrych ar newidiadau hirdymor o ran mudo.

[20] HESA (2024) Ble mae Myfyrwyr Addysg Uwch yn astudio? Ar gael yn: [Where do HE students study? | HESA]

Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, roedd mwyafrif y boblogaeth (54.4%/38,892) wedi'u geni yng Nghymru. Mewn cymhariaeth, cafodd 70.9% o gyfanswm poblogaeth Cymru eu geni yng Nghymru. Cafodd dros draean o boblogaeth Ceredigion (37.3%) eu geni yn Lloegr, o'i gymharu â 21.2% ledled Cymru. Mae'n debygol bod y niferoedd cymharol uchel o breswylwyr a anwyd yn Lloegr yn deillio o'r boblogaeth fawr o fyfyrwyr a'r rhai sy'n ymddeol ac yn symud i'r Sir. Cafodd llai nag un rhan o ddeg o'r boblogaeth (7.1%) eu geni mewn gwledydd y tu allan i'r DU (5,062 o breswylwyr), sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (6.9%) ac awdurdodau lleol cyfagos fel Gwynedd (5.4%), Sir Gaerfyrddin (5.1%), Sir Benfro (4.8%) a Phowys (4.8%). Mae Ffigur 13 isod yn amlinellu poblogaeth Ceredigion yn ôl gwlad enedigol ar ddiwrnod y cyfrifiad.

**Ffigur 13: Poblogaeth yn ôl gwlad geni, Ceredigion, 2021**





*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2021 – Tabl TS012*[21]

Dros y degawd diwethaf, mae poblogaeth Ceredigion wedi dod ychydig yn fwy amrywiol (Ffigur 14). Gostyngodd y boblogaeth a anwyd yn y DU ychydig o 55.4% yn 2011 i 54.4% yn 2021, gostyngiad o 1.0 pwynt canran. Yn y cyfamser, cynyddodd y ganran a anwyd y tu allan i'r DU o 6.1% yn 2011 i 7.1% yn 2021 – cynnydd o un pwynt canran. Yn gyffredinol, y grŵp a anwyd yn yr UE welodd y cynnydd canrannol mwyaf, o 3.0% yn 2011 i 3.6% yn 2021 – cynnydd o 0.6 pwynt canran. Mae'r rhai a anwyd yng Ngwlad Pwyl yn parhau i fod y grŵp mwyaf o fewnfudwyr yn y Sir. Cynyddodd nifer y trigolion yng Ngheredigion a anwyd yng Ngwlad Pwyl o ychydig dros 700 yn 2011 (0.9% o'r boblogaeth leol) i ychydig o dan 950 yn 2021 (1.3%), sy'n cyfateb i gynnydd o 0.4 pwynt canran.

[21] Y Swyddog Ystadegau Gwladol (2022) TS012- Gwlad enedigol (manwl). Ar gael yn: [Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)]

**Ffigur 14: Newid ym maint y boblogaeth fesul rhanbarth, Ceredigion, 2011-2021**




*Ffynhonnell: SYG, Mapiau Cyfrifiad – Newid ers 2011*[22]
**Mae data newid ar gyfer yr UE yn ymwneud â'r set bresennol o aelodau'r UE gan gynnwys Croatia a ymunodd yn 2013.*

Gwelodd cyfran y bobl a anwyd yng Nghymru ostyngiad cymedrol o 0.9 pwynt canran, o 55.3% (42,005) yn 2011 i 54.4% (38,892) yn 2021. Tra bod cyfran y trigolion a anwyd yn Lloegr a'r Alban wedi gostwng 0.1 pwynt canran.


## 3.6 Cydrannau Newid

Mae archwilio cydrannau newid poblogaeth Ceredigion yn datgelu'r ffactorau sydd wedi arwain at y gostyngiad yn y boblogaeth ers 2011.

Fel y dangosir yn Ffigur 15 isod, rhwng 2011/12 a 2022/23, bu nifer y marwolaethau'n gyson uwch na nifer y genedigaethau, gan arwain at newid naturiol negyddol bob blwyddyn. Roedd nifer y genedigaethau yn amrywio o uchafswm o 643 yn 2014/15 i isafswm o 461 yn 2022/23, tra bo marwolaethau'n amrywio o isafswm o 677 yn 2013/14 i uchafswm o 878 yn 2021/22. Ar y llaw arall, amrywiodd ffigurau ymfudo net yn sylweddol ar draws y blynyddoedd, gyda'r blynyddoedd diwethaf yn profi mudo net cadarnhaol anarferol o uchel (2021/22 +1,553 a 2022/23 +1,571).

22 Y Swyddgog Ystadegau Gwladol (2022). Mapiau Cyfrifiad – Newid deng mlynedd yng Ngheredigion, Gwlad enedigol. Ar gael yn: [Country of birth - Census Maps, ONS]

**Ffigur 15: Gyrwyr o dwf poblogaeth Ceredigion, canol 2011 i ganol 2023**




*Ffynhonnell: SYG (2024), Amcangyfrifon Canol Blwyddyn - Cydrannau Newid Poblogaeth* [23]


Yn ôl data cydrannau newid yn y boblogaeth, roedd 55% o'r gostyngiad yn y boblogaeth (-5.8%) a brofwyd rhwng 2011 a 2021 yng Ngheredigion wedi'i yrru gan fudo net negyddol (h.y., mwy o bobl yn gadael y sir nag yn symud i mewn), tra bod y 45% sy'n weddill yn cael ei yrru gan newid naturiol negyddol (h.y. mwy o farwolaethau na genedigaethau).

Cafodd twf yn y boblogaeth yng Ngheredigion rhwng 2011/12 a 2022/23 ei yrru'n bennaf gan amrywiadau o ran mudo net. Er bod mwy o bobl yn marw nag yn cael eu geni (a oedd yn lleihau'r boblogaeth), llwyddodd blynyddoedd o fudo cadarnhaol net uchel i wrthbwyso'r effaith hon, gan arwain at dwf cyffredinol yn y boblogaeth yn y cyfnodau hynny. I'r gwrthwyneb, pan mewnfudo negyddol net, gwaethygodd y dirywiad yn y boblogaeth. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw patrymau ymfudo wrth siapio tueddiadau poblogaeth yn y sir.

Er mwyn deall y ddeinameg o ran mudo'n well, mae Ffigur 16 isod yn amlinellu'r patrymau mudo mewnol a rhyngwladol yng Ngheredigion rhwng 2011/12 a 2022/23. Ymddengys mai mudo mewnol yw'r sbardun mwyaf arwyddocaol o newid yn y boblogaeth yng Ngheredigion, fodd bynnag, mae'n gyfnewidiol iawn, tra bod gan fudo rhyngwladol lai o ddylanwad ac mae'n fwy sefydlog. Ar y cyfan, bu mwy o flynyddoedd gyda chyfnodau o fudo net negyddol o'i gymharu â mudo net mewnol cadarnhaol, tra bod mudo rhyngwladol wedi aros yn gyson gadarnhaol rhwng 2011/12 a 2022/23.

[23] Stats Cymru (2023). Cydrannau newid yn y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol a chydran. Ar gael yn: [Cydrannau newid yn y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol a chydran]

**Ffigur 16: Patrymau mudo Mewnol a Rhyngwladol, Ceredigion (2011/12 to 2022/23)**





*Ffynhonnell: SYG (2024), Amcangyfrifon Canol Blwyddyn - Cydrannau Newid Poblogaeth* [24]

Fel y nodir yn Ffigur 17 ar y dudalen nesaf, mae patrymau ymfudo mewnol yng Ngheredigion yn amrywio yn ôl oedran. Mae'r symudiad mwyaf o drigolion i mewn ac allan o Geredigion o fewn y grŵp oedran 15 i 24 oed, ac mae hyn yn cael ei briodoli i'r gyfran uchel o fyfyrwyr yn y Sir sy'n symud i astudio yn y prifysgolion, a phoblogaethau iau'n mudo allan i rannau eraill o'r DU at ddibenion addysg a chyflogaeth.

Yn gyffredinol, mae tuedd i grwpiau oedran 0 i 15 a 45 i 64 brofi mudo net cadarnhaol, tra bo grwpiau oedran 25 i 44 ac 65 a throsodd yn profi mudo net negyddol. Mae mudo ymhlith preswylwyr 15 i 24 oed wedi amrywio dros y blynyddoedd, sy'n ddisgwyliedig oherwydd natur y boblogaeth fyfyrwyr sy'n symud yn gyson a dylanwad y prifysgolion.

[24] Stats Cymru (2023). Cydrannau newid yn y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol a chydran. Ar gael yn: [Cydrannau newid yn y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol a chydran]()

**Ffigur 17: Mudo mewnol net yn ôl grwpiau oedran, Ceredigion, 2012 to 2023**




*Ffynhonnell: SYG (2024)*[25]

Fel yr adlewyrchir yn Ffigur 17 uchod, mae'r cynnydd diweddar yn y boblogaeth yng Ngheredigion yn cael ei yrru gan y mewnlifiad o bobl ifanc 15 i 24 oed i Geredigion yn 2022 a 2023. Wrth ddadansoddi'r data yn ôl grwpiau oedran llai, ceir mudo net cadarnhaol uwch ymhlith y rhai 15 i 19 oed, a mudo net negyddol is ymhlith y rhai 20 i 24 oed, o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Mae'n anodd penderfynu yn union beth sydd wedi achosi'r newid diweddar hwn, fodd bynnag, mae rhai esboniadau posibl yn cynnwys:

- Dychwelyd at lefelau myfyrwyr cyn y pandemig wrth i addysgu wyneb yn wyneb ailddechrau a chyfyngiadau teithio lacio, gan arwain at fyfyrwyr yn symud yn ôl i'r Sir i astudio.
- Llai o fyfyrwyr/preswylwyr o oedran myfyrwyr sy'n gadael Ceredigion ar ôl graddio o'r brifysgol/ysgol.
- Cywiro tangyfrif Cyfrifiad 2021 (h.y. mae myfyrwyr na chawsant eu cyfrif yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor bellach wedi'u cynnwys ym mhoblogaeth breswyl arferol Ceredigion).
- Teuluoedd â phlant/plant yn eu harddegau yn symud i Geredigion.

## 3.7 Amcanestyniadau Poblogaeth

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn amcangyfrif maint y boblogaeth yn y dyfodol, yn seiliedig ar dybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo, sydd wedi'u seilio ar dueddiadau blaenorol. Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu set o amcanestyniadau awdurdodau lleol bob dwy flynedd.[26] Bydd yr


[25] Y Swyddog Ystadegau Gwladol (2024). Mudo mewnol yng Nghymru a Lloegr. Ar gael yn: [Internal migration in England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)]

[26] Er mai'r arfer safonol yw cynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth bob dwy flynedd, penderfynwyd, yn sgil adborth a chysylltiad â Nodyn

adran ganlynol yn edrych ar amcanestyniadau swyddogol Llywodraeth Cymru i gael gwell dealltwriaeth o sut y gallai demograffig y Sir newid yn y dyfodol.
Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod yr amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar dueddiadau, nid rhagolygon, nac yn ceisio rhagweld effaith polisïau'r llywodraeth yn y dyfodol, amgylchiadau economaidd sy'n newid, neu ffactorau eraill fel pandemig COVID-19. Felly, nid yw'r amcanestyniadau yn ystyried unrhyw angen sy'n deillio o gyfeiriad corfforaethol y Cyngor, sef rhoi hwb i'r economi leol, ac nid yw'n ystyried unrhyw angen sy'n dod i'r amlwg o fuddsoddiadau parhaus i'r ardal, megis Tyfu Canolbarth Cymru, y Gronfa Ffyniant Bro neu’r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Yn ôl yr amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf (yn seiliedig ar 2018), disgwylir i'r duedd o ddirywiad yn y boblogaeth barhau (cyfeiriwch at Ffigur 18 isod). Mae’r prif amcanestyniad[27], yn disgwyl gostyngiad o 5.8% (4,247 o drigolion) dros y cyfnod o 25 mlynedd (2018 i 2043). Mae'r gwahanol sefyllfaoedd yn Ffigur 18 yn dangos yn glir yr effaith y gall mudo amgen, ffrwythlondeb, a thybiaethau ynghylch marwolaethau ei chael ar yr amcanestyniadau yn y dyfodol. Mae amcanestyniadau amrywiol yn rhoi arwydd o’r ansicrwydd cynhenid mewn ymddygiad demograffig, yn enwedig ar gyfer amcanestyniadau tymor hir.

**Ffigur 18: Amcanestyniadau poblogaeth sail-2018 Llywodraeth Cymru ac Amcangyfrifon Canol Blwyddyn y SYG ar gyfer Ceredigion (2012 i 2043)**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2020)[28] a SYG, Amcangyfrifon Canol Blwyddyn (2012 i 2023)[29]*

defnyddwyr, na fyddai'r amcanestyniadau’r awdurdodau lleol yn seiliedig ar 2020 yn cael eu cynhyrchu. Un o’r rhesymau dros hyn oedd yr angen i aros er mwyn cael gwell dealltwriaeth o effaith y pandemig. - [National and subnational population projections – user feedback - Office for National Statistics]

[27] Y amcanestyniad a gyfeirir ato fel 'prif' yw'r prif amcanestyniad, ac mae'n seiliedig ar ragdybiaethau am ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo a ystyrir mai hwn sydd yn adlewyrchu’r patrymau demograffig orau ar y pryd. Gellir ei ystyried yn amcanestyniad 'canolog'.
[28] Stats Wales (2020). Population projections by local authority and year. Available at: [Population projections by local authority and year (gov.wales)]
[29] Stats Wales (2023). Population estimates by local authority and year. Available at: [Population estimates by local authority and year]

Er ei bod yn cael ei gydnabod mai amcanestyniadau 2018 yw'r amcanestyniadau diweddaraf sydd ar gael ar adeg ysgrifennu hwn, fe'u cynhyrchwyd pum mlynedd yn ôl a gellir ystyried eu bod wedi dyddio. Disgwylir y rownd nesaf o amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn ystod hanner cyntaf 2025 a bydd yn seiliedig ar 2022. Er bod y tueddiadau diweddar (rhwng 2021–2022) wedi bod yn gadarnhaol, mae'n annhebygol y bydd hyn wedi gwrthbwyso'r tueddiadau negyddol cyn 2021. Disgwylir felly y bydd y rhagolygon ar sail 2022 yn amcangyfrif dirywiad ychydig yn llai nag a ragwelwyd yn 2018. O ystyried y pryderon ynghylch diboblogi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hon yn sicr yn sefyllfa fwy cadarnhaol na'r amcanestyniadau presennol. Fodd bynnag, os yw'r tueddiadau cadarnhaol yn parhau (fel y gwelwyd yn ystod 2021 i 2023 – cyfeiriwch at amcangyfrif canol-blwyddyn yn adran 3.2 Newid Poblogaeth), y gobaith yw y gallai amcanestyniadau yn y dyfodol (megis 2024) wrthdroi'r duedd o ddirywiad poblogaeth yn gyfan gwbl.

## 4.0 Casgliad

Mae amcangyfrifon ac amcanestyniadau poblogaeth yn hanfodol ar gyfer llywodraethu effeithiol a chynllunio lleol. Maent yn chwarae rhan allweddol ym mhroses gynllunio'r Cyngor (e.e. gwasanaethau addysgol, darpariaeth gofal plant, gwasanaethau gofal iechyd, tai ac ati), datblygu polisi, dyrannu adnoddau, a dyraniadau cyllid gan Lywodraeth Cymru. Ar ben hynny, defnyddir y data fel sail ar gyfer llawer o ystadegau eraill sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau. Felly, mae'n hanfodol sicrhau bod y boblogaeth ac amcanestyniadau'r boblogaeth o'r ansawdd uchaf. Yn anffodus, mae yna lawer o ansicrwydd ynglŷn ag amcangyfrifon poblogaeth presennol a dyfodol Ceredigion. Mae Ceredigion yn gartref i gyfran uchel o fyfyrwyr hynod symudol, sy'n anodd eu cynnwys yn y data. Ar ben hynny, mae amgylchiadau unigryw Cyfrifiad 2021 a ddigwyddodd yn ystod pandemig COVID-19, wedi arwain at bryderon ynghylch tangyfrif posibl yn y boblogaeth gyffredinol yn 2021. Serch hynny, mae'n amlwg o ystyried amryw o ffynonellau bod deinameg ddemograffig Ceredigion wedi profi newidiadau sylweddol ers y cyfrifiad blaenorol yn 2011.

Profodd poblogaeth Ceredigion ostyngiad sylweddol dros y degawd, sydd wedi'i yrru'n bennaf gan fudo net negyddol (h.y., mwy o bobl yn gadael na'n symud i'r Sir) ac i raddau ychydig yn llai, newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau) dros y cyfnod hwnnw. Mae newid naturiol yng Ngheredigion wedi bod yn negyddol yn barhaus, gyda chyfradd y marwolaethau yn fwy na'r genedigaethau. Cyfrannodd y boblogaeth sy'n heneiddio at y duedd hon, gan arwain at gyfradd marwolaethau uwch a llai o enedigaethau. Er bod rhywfaint o fudo i mewn, yn enwedig o fewn y grwpiau oedran iau a ddenwyd i'r prifysgolion, nid yw wedi bod yn ddigon i wrthbwyso allfudo oedolion ifanc dros y cyfnod hwn. Bydd poblogaeth sy'n dirywio ac yn heneiddio yn parhau i gael effaith ar y Cyngor a'i wasanaethau. Bydd llai o gyllid yn cael ei ddyrannu, sy'n arbennig o heriol i Siroedd gwledig gyda demograffig sy'n heneiddio, gan fod gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol yn ddrytach i'w darparu mewn ardaloedd gwledig, ac mae galw am wasanaethau'n cynyddu ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio, fel tai a gofal.

Fodd bynnag, yn gadarnhaol, gwelwyd cynnydd sylweddol o ran mudo net (yn enwedig mudo mewnol), sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y boblogaeth (+2,374/3.4%) rhwng canol 2021 a chanol 2023. Er bod y boblogaeth yn parhau i fod yn is nag yr oedd yn 2011, mae hyn yn duedd gadarnhaol o ystyried y pryderon ynghylch diboblogi yn y blynyddoedd diwethaf. Cynigir sawl rheswm posibl dros y cynnydd

(gov.wales)

hwn, megis dychwelyd at niferoedd myfyrwyr cyn y pandemig, llai o bobl ifanc yn gadael y Sir, a/neu gywiro tangyfrif posibl yn y boblogaeth myfyrwyr yng Nghyfrifiad 2021, i enwi rhai. Fodd bynnag, mae'n anodd penderfynu yn union beth sy'n digwydd ar hyn o bryd ac a fydd y tueddiadau hyn yn parhau yn y tymor hwy.

Wrth edrych ymlaen, mae’r amcanestyniadau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru (yn seiliedig ar 2018), yn awgrymu y bydd y boblogaeth yn parhau i ostwng dros yr 20 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, er mai'r amcanestyniadau hyn yw'r mwyaf diweddar sydd ar gael, maent wedi dyddio ac nid ydynt yn ystyried y cynnydd diweddar yn y boblogaeth. Bydd yr amcanestyniadau newydd yn seiliedig ar 2022 yn cael eu cyhoeddi yn 2025, ac mae'n debygol y bydd y rhain yn amcangyfrif gostyngiad llai sylweddol. Os yw'r tueddiadau cadarnhaol diweddar yn parhau (fel y gwelwyd yn ystod 2021 i 2023), mae'n bosibl y gallai amcanestyniadau yn y dyfodol (fel 2024), wrthdroi'r duedd o ddirywiad poblogaeth yn gyfan gwbl.

# 5.0 Cyfeirnodau

Cyngor Dinas Manceinion (2023). Ar gael yma: Communities and Power (manchester.gov.uk)

HESA (2024) Ble mae Myfyrwyr Addysg Uwch yn astudio? Ar gael yn: Where do HE students study? | HESA

Mudo net: llif net y mudwyr i mewn ac allan o ardal. Hynny yw, mewnfudo tynnu allfudo.

Newid naturiol: cyfradd genedigaethau, tynnu'r gyfradd marwolaethau o fewn poblogaeth benodol dros gyfnod amser penodol.

NOMIS (2022). Cyfrifiad poblogaeth. Ar gael yn: Census of Population - Data Sources - home - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

Stats Cymru (2022). Poblogaeth breswyl arferol yn ôl oedran ac awdurdod lleol. Ar gael yma: Poblogaeth breswyl arferol yn ôl oedran ac awdurdod lleol (llyw.cymru)

Stats Cymru (2023). Cydrannau newid yn y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol a chydran. Ar gael yn: Cydrannau newid yn y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol a chydran

SYG (2023). Amcangyfrifon o boblogaeth Cymru a Lloegr. Ar gael yn: Estimates of the population for England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

SYG (2023). TS001 – Nifer y preswylwyr arferol mewn cartrefi a sefydliadau cymunedol. Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021). Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ar gael yn: Estimates of the population for the UK, England, Wales, Scotland, and Northern Ireland - Swyddfa Ystadegau Gwladol

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). Ailsylfaenu a chysoni amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yn dilyn Cyfrifiad 2021, Cymru a Lloegr: 2022. Ar gael yma: Ailsylfaenu a chysoni amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yn dilyn Cyfrifiad 2021, Cymru a Lloegr: 2022 - Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023). Cysoni amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn â Chyfrifiad 2021 ar lefel awdurdod lleol. Ar gael yn: Cysoni amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn â Chyfrifiad 2021 ar lefel awdurdod lleol - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023). Mudo rhyngwladol tymor hir, dros dro: blwyddyn yn dod i ben Mehefin 2023. Ar gael yma: Mudo rhyngwladol tymor hir, dros dro – Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024). Amcangyfrifon o boblogaeth y DU, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ar gael yn: Estimates of the population for the UK, England, Wales, Scotland, and Northern Ireland - Swyddfa Ystadegau Gwladol

Y Swyddgog Ystadegau Gwladol (2022). Mapiau Cyfrifiad – Newid deng mlynedd yng Ngheredigion, Gwlad enedigol. Ar gael yn: Country of birth - Census Maps, ONS

Y Swyddog Ystadegau Gwladol (2022) TS012- Gwlad enedigol (manwl). Ar gael yn: Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

Y Swyddog Ystadegau Gwladol (2024). Mudo mewnol yng Nghymru a Lloegr. Ar gael yn: Internal migration in England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

Y Swyddog Ystadegau Gwladol (2023). Y boblogaeth breswyl arferol mewn addysg amser llawn erbyn 18 i 30 oed. Ar gael yn: Usual resident population in full-time education by age 18 to 30 years, England and Wales: Census 2021 - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

# Atodiad 1: Newid Poblogaeth yn ôl Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is

Mae amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bach o'r Cyfrifiad yn 2011 a 2021 yn darparu trosolwg o sut mae gostyngiad poblogaeth Ceredigion ers 2011 wedi ei dosbarthu ar draws ei Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) (Atodiad 1).[30] *Am drosolwg cyfan o ddata y Cyfrifiad ar lefel ACHEI, cyfeiriwch at y Proffiliau Ardal Cyfrifiad 2021.*

O'r 45 ACEHI, mae mwyafrif llethol (38 ACEHI/84.4%) wedi gweld gostyngiad i'r boblogaeth rhwng 2011 a 2021. Mae Tabl 1 isod yn darparu'r ffigurau poblogaeth o 2011 a 2021 a'r newid poblogaeth (2011 i 2021).

Yr ACEHI gyda'r gostyngiad mwyaf i'w poblogaeth dros y degawd ydy Gogledd Llanbadarn Fawr gyda 832 yn llai o drigolion yn 2021 nag yn 2011, mae hyn yn ostyngiad o 36.4%. Tra bod yr ACEHI gyda'r cynyddiad poblogaeth fwyaf rhwng 2011 a 2021 ydy Beulah (wedi lleoli i De'r Sir), gyda chynyddiad o 136 trigolyn ers 2011 (+8.4%). Mae'r ACEHI sy'n cynrychioli'r gostyngiad mwyaf wedi'u crynhoi i raddau helaeth o amgylch Aberystwyth (e.e. Gogledd Llanbadarn Fawr, Aberystwyth Bronglais, Canol Aberystwyth) a Llanbedr Pont Steffan (e.e. Llanbedr Pont Steffan 1), un o brif yrwyr y gostyngiad hwn yw'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru ym Mhrifysgol Aberystwyth a Champws Llambed (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant) ers 2011 (cyfeiriwch at Adran 3.4 am ragor o fanylion). *Mae'n bwysig nodi bod tair ACEHI wedi profi newidiadau ffiniau ers Cyfrifiad 2011 ac felly ni ellir gwneud cymariaethau dros y degawd, rhestrir y rhain ar waelod y tabl. Gweler Atodiad 2 am fanylion pellach y newidiadau.*

**Tabl 1: Newid poblogaeth yng Ngheredigion ACEHI, 2011 i 2021.**

| Enwau ACEHI | Codau ACEHI | 2011 | 2021 | Newid | % |
|---|---|---|---|---|---|
| Ceulanamaesmawr | W01000523 | 1,910 | 1,863 | - 47 | -2.5% |
| Tirymynach | W01000548 | 1,901 | 1,769 | - 132 | -6.9% |
| Trefeurig | W01000549 | 1,771 | 1,774 | 3 | 0.2% |
| Borth | W01001937 | 2,078 | 1,955 | - 123 | -5.9% |
| Aberystwyth Bronglais | W01000512 | 2,075 | 1,355 | - 720 | -34.7% |
| Aberystwyth Canol | W01000513 | 2,471 | 2,109 | - 362 | -14.6% |
| Aberystwyth Rheidol 1 | W01000517 | 1,472 | 1,172 | - 300 | -20.4% |
| Aberystwyth Penparcau 1 | W01000515 | 1,446 | 1,320 | - 126 | -8.7% |
| Aberystwyth Penparcau 2 | W01000516 | 1,676 | 1,643 | - 33 | -2.0% |
| Aberystwyth Rheidol 2 | W01000518 | 1,259 | 1,007 | - 252 | -20.0% |
| De Llanbadarn Fawr | W01000552 | 1,095 | 1,036 | - 59 | -5.4% |
| Gogledd Llanbadarn Fawr | W01001935 | 2,285 | 1,453 | - 832 | -36.4% |
| Aberaeron | W01000506 | 1,422 | 1,268 | - 154 | -10.8% |
| Ciliau Aeron | W01000524 | 1,974 | 1,920 | - 54 | -2.7% |
| Llanrhystyd | W01000538 | 1,562 | 1,544 | - 18 | -1.2% |
| Llansantffraed 1 | W01000539 | 1,222 | 1,187 | - 35 | -2.9% |

[30] Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is: maent yn cynnwys grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch (OA), fel arfer pedwar neu bump. Maent yn cynnwys rhwng 400 a 1,200 o aelwydydd ac fel arfer mae ganddynt boblogaeth breswyl rhwng 1,000 a 3,000. Mae 45 LSOA yng Ngheredigion.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llansantffraed 2 | W01000540 | 1,164 | 1,155 | - 9 | -0.8% |
| Penbryn | W01000545 | 2,045 | 1,981 | - 64 | -3.1% |
| Lampeter 1 | W01000527 | 1,510 | 1,152 | - 358 | -23.7% |
| Lampeter 2 | W01000528 | 1,460 | 1,353 | - 107 | -7.3% |
| Llanfihangel Ystrad | W01000535 | 2,037 | 2,036 | - 1 | 0.0% |
| Llangybi | W01000537 | 1,484 | 1,390 | - 94 | -6.3% |
| Llanwenog | W01000541 | 1,854 | 1,742 | -112 | -6.0% |
| Aberporth 1 | W01000507 | 1,196 | 1,140 | - 56 | -4.7% |
| Aberporth 2 | W01000508 | 1,178 | 1,043 | - 135 | -11.5% |
| Aberteifi - Mwldan | W01000509 | 1,784 | 1,862 | 78 | 4.4% |
| Aberteifi - Rhyd-y-Fuwch | W01000510 | 1,226 | 1,182 | - 44 | -3.6% |
| Aberteifi - Teifi | W01000511 | 1,174 | 1,174 | - | 0.0% |
| Pen-parc 1 | W01000546 | 1,128 | 1,136 | 8 | 0.7% |
| Pen-parc 2 | W01000547 | 1,180 | 1,137 | - 43 | -3.6% |
| Beulah | W01000519 | 1,627 | 1,763 | 136 | 8.4% |
| Capel Dewi | W01000522 | 1,293 | 1,199 | - 94 | -7.3% |
| Llandyfriog | W01000531 | 1,835 | 1,764 | - 71 | -3.9% |
| Tref Llandysul | W01000533 | 1,439 | 1,340 | - 99 | -6.9% |
| Troedyraur | W01000551 | 1,310 | 1,380 | 70 | 5.3% |
| Faenor 1 | W01000525 | 1,206 | 1,226 | 20 | 1.7% |
| Llanfarian | W01000534 | 1,541 | 1,518 | - 23 | -1.5% |
| Melindwr | W01000543 | 2,020 | 2,011 | - 9 | -0.4% |
| Ystwyth | W01000552 | 2,074 | 2,008 | - 66 | -3.2% |
| Llangeitho | W01000536 | 1,459 | 1,365 | - 94 | -6.4% |
| Lledrod | W01000542 | 2,209 | 2,204 | - 5 | -0.2% |
| Tregaron | W01000550 | 1,213 | 1,154 | - 59 | -4.9% |
| Penglais 1 | W01002001 | N/A | 2,923 | N/A | N/A |
| Penglais 2 | W01002000 | N/A | 1,414 | N/A | N/A |
| Cei Newydd, Llanarth & Llandysilio | W01002002 | N/A | 4,349 | N/A | N/A |

* Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gynnal adolygiad o enwau'r ACEHI. Felly, sylwch y gall yr enwau a ddarperir yma newid.

* N/A: data ddim ar gael ac nid oes modd ei gymharu oherwydd newidiadau i ffiniau ACEHI. Cyfeiriwch at Atodiad 2 am ymwadiad llawn.


## Atodiad 2: Newid ffiniau ACEHI (Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is)

Dylid nodi bod SYG wedi cyhoeddi nifer o newidiadau ffiniau ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011. Mae hyn yn golygu bod gan Geredigion gyfres newydd o ffiniau ACEHI yn 2021. Er nad oes nifer fawr o newidiadau, mae'n hynod bwysig nodi y bydd yn anodd cymharu data rhwng 2011 a 2021 lle mae ffiniau ACEHI wedi newid.

Yn 2011 roedd 47 ACEHI yng Ngheredigion. Mae ffiniau ACEHI newydd yn 2021 yn cynnwys 45 ACEHI. Bu newidiadau i 4 o ACEHI 2011.
Mae cyfanswm o 4 newid wedi bod i'r 2011 ACHGI. Mae Cei Newydd (W01000544), Llanarth (W01000529) a Llandysiliogogo (W01000532) wedi uno mewn i 1 ACEHI. Mae Aberystwyth Penglais (W01001934) wedi gwahanu mewn i 2 ACEHI. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ail-enwi'r ACEHI. Ar hyn o bryd does dim enwau swyddogol i'r ACEHI newydd, felly yn y cyfamser, mae Tîm Ymchwil Cyngor Ceredigion yn defnyddio'r enwau canlynol:

- Cei Newydd, Llanarth & Llandysilio (W01002002)
- Penglais 1 (W01002001)
- Penglais 2 (W01002000)

Mae'r map isod yn dangos y newidiadau i ffiniau ACEHI rhwng 2011 a 2021.




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion, 2023